# Asesiad HMI ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

## Cyflwyniad

Dyma ail asesiad HMIC o'r effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb sydd gan Heddlu Gogledd Cymru wrth iddynt gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae PEEL (effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu) yn rhoi gwybodaeth ichi ynghylch sut mae'ch heddlu lleol yn perfformio mewn nifer o feysydd pwysig.

Mae'n gwneud hyn mewn ffordd y gellir ei chymharu ar draws Cymru a Lloegr, a blwyddyn ar flwyddyn fel ei gilydd.

## Datganiad ar ddyfarniadau piler

- Mae'r graddau mae Heddlu Gogledd Cymru yn **effeithiol** wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu **angen gwelliant**.
- Mae'r graddau mae Heddlu Gogledd Cymru yn **effeithlon** wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu yn **dda**.
- Mae'r graddau mae Heddlu Gogledd Cymru yn **gyfreithlon** wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu yn **dda**.

Eleni, am y tro cyntaf, rydym wedi asesu arweinyddiaeth ar draws y llu. Mae'r asesiad wedi arwain at ddyfarniad naratif yn hytrach na graddedig, a grynhöir isod.

Darllenwch ragor ynghylch fy asesiad o berfformiad Heddlu Gogledd Cymru eleni, gan gynnwys digwyddiadau arwyddocaol a lle hoffwn weld gwelliannau flwyddyn nesaf.

## Sylwadau HMI

Rwyf yn fodlon ar y mwyafrif o agweddau ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru wrth iddynt gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu, ond mae rhai meysydd sydd angen eu gwella er mwyn darparu gwasanaeth da yn gyson.

Mae'r llu'n dda o ran atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a mynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol. Fodd bynnag, mae angen iddo wella'r ffordd mae'n dyrannu troseddau i'w hymchwilio mewn modd sy'n cydweddu sgiliau a phrofiad yr ymchwiliwr ag anghenion dioddefwyr hyglwyf.

Mae gennyf bryderon ynghylch sut mae'r llu'n ymateb i ddioddefwyr hyglwyf. Mae'r llu'n datblygu ei ddealltwriaeth o raddfa ac effaith cam-drin plant yn rhywiol ac mae ei broses o gyflenwi gwasanaeth ar y cyd â Barnardo's yn adeiladu cymorth cryfach ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl. Fodd bynnag, mae'r fenter hon yn cael ei rhwystro gan yr anhawster ynghylch nodi'r rhai hynny sydd yn fwyaf hyglwyf i niwed yn ystod eu cyswllt cyntaf â'r heddlu. Hefyd mae anghysondebau o ran rheoli troseddwyr ac o ran asesu ac ymateb i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Rwyf yn croesawu'r camau mae'r llu'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, gan gynnwys y defnydd o gamerâu a wisgir ar y corff i wella ansawdd tystiolaeth y gellid ei chael. Bydd y cynnydd yn y nifer o gynghorwyr annibynnol ym maes trais domestig yn helpu i roi hwb i'r cymorth sydd ar gael ar gyfer y dioddefwyr hynny sydd yn y perygl mwyaf.

Rwyf yn fodlon bod gan y llu gynlluniau, a gydweddir â gwelliannau mewn arferion gweithio, a fydd yn diwallu'r her o wneud mwy â llai. Mae gwelliannau'n cynnwys y defnydd ehangach o dechnoleg newydd ac, yn arbennig, y defnydd o ddata symudol. Bydd y newidiadau technegol hyn yn galluogi swyddogion rheng flaen i gyrchu systemau TG a gwybodaeth yr heddlu, fel y gallant weithio'n effeithlon ac effeithiol heb angen dychwelyd i'r orsaf.

## Disgrifiad o ardal y llu

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Er bod rhai ardaloedd yn fwy cefnog, mae gan Ogledd Cymru lefel uchel o dlodi. Mae oddeutu 0.7 miliwn o bobl yn byw mewn sefyllfa sy'n wledig yn bennaf. Mae ei nifer o ardaloedd trefol unigryw a bach yn cynnwys tref Wrecsam. Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr y brifysgol a'r niferoedd mawr iawn sy'n ymweld â'r ardal neu'n teithio trwy'r ardal bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys porthladd môr pwysig.

Mae'r gyfran o ardaloedd yng Ngogledd Cymru y rhagwelir y byddant yn cyflwyno her fawr iawn i'r heddlu'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae amddifadedd cymdeithasol neu grynhoad o safleoedd masnachol (gan gynnwys safleoedd trwyddedig), yn nodweddiadol o'r rhain a mewn rhai achosion mae'r ddau'n bresennol. Rhwystrir y ddarpariaeth o wasanaethau ledled holl ardal y llu gan faint ardal yr heddlu a'r rhwydwaith ffyrdd.

## Trefniadau gweithio

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn rhan o uned wrth-derfysgaeth Cymru Gyfan. Mae'n gweithio ar y cyd â Chwnstabliaeth Swydd Gaer ar arfau tanio a mae'r llu'n datblygu ffordd i weithio â Heddlu Glannau Mersi a Chwnstabliaeth Swydd Gaer i ddarparu gwasanaethau fforensig. Hefyd mae'n gweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i nodi meysydd posibl ar gyfer cydweithredu.

## Effeithiolrwydd

Yn ein harolygiad effeithiolrwydd, fe wnaethom ddyfarnu bod Heddlu Gogledd Cymru angen gwella o ran sut mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu. Mae'r llu'n dda o ran atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, mewn cysylltiad â sut mae'r llu'n ymchwilio i droseddau, mae'r ffordd y rheolir troseddwyr yn anghyson ac weithiau dyrennir swyddogion i ymchwilio i droseddau sydd y tu hwnt i lefel eu hyfforddiant. Hefyd, byddai asesiad cywirach o risg pan yw pobl yn cysylltu â'r llu yn y lle cyntaf yn sicrhau y darperir gwasanaeth gwell i ddioddefwyr. Mae'r llu'n mynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol yn effeithiol ar sawl cyfrif er bod cwmpas i wella mewn rhai meysydd penodol. Dyma'r flwyddyn gyntaf mae HMIC wedi graddoli lluoedd ar eu heffeithiolrwydd cyffredinol felly nid yw'n bosibl cymharu eu heffeithiolrwydd flwyddyn ar flwyddyn.

## Effeithlonrwydd

Fe wnaeth HMIC ganfod bod Heddlu Gogledd Cymru yn barod i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Mae'r llu wedi rheoli ei gyllid yn dda. Mae wedi wynebu gostyngiadau llai na'r cyfartaledd yn ei gyllidebau a felly mae wedi wynebu llai o doriadau ar swyddi, ond mae angen iddo wneud mwy o waith i gynllunio sut bydd yn rheoli gostyngiadau'r dyfodol. Yn yr arolygiad gwerth am arian llynedd, a oedd yn ystyried sut oedd lluoedd wedi cwrdd â her y cyfnod adolygu gwariant blaenorol, dyfarnwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn dda.

## Cyfreithlondeb

Fe wnaeth HMIC ganfod bod Heddlu Gogledd Cymru yn cymryd yr angen i sefydlu gweithlu moesegol a chynhwysol o ddifrif, a'i fod wedi'i ymrwymo i gefnogi lles y gweithlu. Mae gan dimau plismona lleol ddealltwriaeth dda o'u cymunedau a maent wedi'u hymrwymo i'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu i ddioddefwyr troseddu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydymffurfio â'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio ac rydym yn fodlon bod ei ddefnydd o Taser yn deg a phriodol.

Dyma'r tro cyntaf mae HMIC wedi graddoli lluoedd ar eu cyfreithlonrwydd, felly nid yw'n bosibl cymharu ar sylfaen flwyddyn ar flwyddyn.

## Arweinyddiaeth

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn llu a arweinir yn dda a gall arddangos ei fod yn deall galluogrwydd a chapasiti ei weithlu. Mae gan y llu synnwyr clir, realistig ac ysgogol ynghylch ei gynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, a mae ei weledigaeth, 'Gogledd Cymru Ddiogelach', wedi'i chyfathrebu i'w weithlu ac y tu allan i'r sefydliad. Mae tîm yr uwch-swyddogion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gweithlu, er bod rhai

wedi mynegi pryderon wrthym yn ystod ein harolygiad nad yw'r rhaglen arweinyddiaeth yn gwbl gynhwysol.

## Mewnwelediadau o arolygiadau eraill

Mae HMIC yn ymgymryd ag arolygiadau eraill heblaw am y rhaglen PEEL. Ers yr asesiad PEEL diwethaf mae naw adroddiad wedi'u cyhoeddi ar arolygiadau a oedd yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru. Gellir gweld rhagor o fanylion ar rai o'r arolygiadau hyn o dan yr adran "arolygiadau eraill".

## Edrych ymlaen at  PEEL 2016

Yn y flwyddyn sydd o'n blaen, bydd gennyf ddiddordeb i weld sut fydd y llu'n ymateb i'r asesiad hwn a'r meysydd ar gyfer gwella mae HMIC wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd gennyf ddiddordeb arbennig i weld:

- buddsoddiad parhaol mewn technoleg newydd, megis camerâu a wisgir ar y corff a data symudol, er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr hyglwyf;
- gwelliannau o ran nodi ac ymateb i bobl hyglwyf;
- gwell ddefnydd o gydweithio er mwyn cyflwyno arbedion ac effeithlonrwydd yn y dyfodol, er enghraifft y fenter dridarn â Heddlu Glannau Mersi a Chwnstabliaeth Swydd Gaer, yn cwmpasu gwasanaethau fforensig; ac
- y gwaith mae'r llu'n ei wneud i wella ansawdd cyffredinol ymchwiliadau.

Ym Mai 2016, fel y mwyafrif o luoedd yng Nghymru a Lloegr, bydd y llu'n gweld yr ail etholiadau ar gyfer ei gomisiynydd heddlu a throseddu.